Newyddion DBS
Gorffennaf 2017

gan **Adele Downey,**
Prif Weithredwr

# Newyddion DBS Gorffennaf 2017
# Neges gan y Prif Weithredwr

## Diolch i bob un o'n cwsmeriaid a roddodd adborth yn ein Harolwg o Foddhad Cwsmeriaid.

Mae 90% o'n cwsmeriaid yn credu bod y gwasanaethau a ddarparwn yn eu helpu i wneud penderfyniadau mwy o ran cyflogaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu ein safle yn yr arena diogelu'r cyhoedd. Mae rhagor o wybodaeth am ganlyniadau cyntaf ein harolwg ar gael mewn erthygl gan ein Tîm Barn Cwsmeriaid yn y rhifyn hwn.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod ein prosiect Release 1 (R1) yn mynd rhagddo'n dda ac rydym wedi cael canlyniadau cadarnhaol o'r camau profi mewnol. Hefyd, rydym wedi cwblhau'r gwaith o brofi dau Sefydliad Cyfrifol mawr sy'n defnyddio Disclosure Scotland ar gyfer gwiriadau sylfaenol Cymru a Lloegr ar hyn o bryd.

Byddwn yn profi gyda rhagor o Sefydliadau Cyfrifol yn ystod yr haf, a'r nod yw dechrau defnyddio ein gwasanaeth gwirio sylfaenol ar y we rhwng mis Medi a diwedd y flwyddyn.
Ar ben hynny, byddwn yn cychwyn cysylltu cyn bo hir â chwsmeriaid Disclosure Scotland sy'n cyflwyno gwiriadau sylfaenol ar ffurf papur i ddweud wrthynt am y dewisiadau sydd ar gael iddynt.

Mae ein Cyfarwyddwr newydd dros Ddiogelu, Strategaeth ac Ansawdd, Dr Suzanne Smith, wedi ymuno â ni erbyn hyn o'r GIG. Mae Sue yn awyddus iawn i wella ymgysylltiad rhanddeiliaid â'n partneriaid ac rwy'n edrych ymlaen at rannu ei chynlluniau â chi.

Yn olaf, mae'n bleser gennyf gadarnhau bod Gwasanaeth yr Heddlu Metropolitan wedi llwyddo i weithio drwy'r pentwr o geisiadau am dystysgrifau manylach a oedd wedi cronni yn ystod 2016/17. Dylai'r tystysgrifau eich cyrraedd yn gyflymach erbyn hyn.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i'r DBS ac rwy'n edrych ymlaen at ddweud rhagor wrthych dros y misoedd nesaf am ein strategaeth ar gyfer y dyfodol.

**"Mae'n bleser gweld bod lefel boddhad cwsmeriaid gyda'r DBS ar y cyfan yn dal i fod yn uchel"**
*Adele Downey, Prif Weithredwr*

gan **Peter Evans,**
Rheolwr Rhaglen R1

## Release 1 (R1)
## Y diweddaraf am y prosiect

**Yn y rhifyn diwethaf o Newyddion DBS, gwnaethom addo rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am R1, ein rhaglen moderneiddio TG.**

Ym mis Mehefin, cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig wrth i ni lwyddo i brofi cysylltedd ac integreiddiad system gyda 2 o'n Sefydliadau Cyfrifol mwyaf. Mae'r sefydliadau hyn wedi creu eu gwasanaethau gwe eu hunain a fydd yn caniatáu iddynt anfon ceisiadau electronig am wiriadau sylfaenol at y DBS pan fydd y system ar waith.

Dywedodd Rheolwr Prosiect R1, Martin Fitton, "Llwyddodd y Sefydliadau Cyfrifol i gysylltu â'n systemau a chyflwyno cais prawf. Mae hyn yn golygu ein bod wedi llwyddo i brofi'r broses o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys cael y sefydliad cyfrifol i anfon cais at y DBS, y DBS yn derbyn y cais yn ein system ac yn anfon neges ymateb at y sefydliad cyfrifol, y cyfan drwy'r gwasanaeth ar y we."

Fel y byddwch wedi'i ddarllen yn rhagair y Prif Weithredwr, mae'r DBS ar fin cychwyn profi gyda Sefydliadau Cyfrifol eraill sy'n defnyddio gwasanaeth Disclosure Scotland ar y we neu wasanaeth e-bost diogel ar gyfer gwiriadau sylfaenol Cymru a Lloegr ar hyn o bryd. Rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2017, bydd y cwsmeriaid hyn yn cychwyn ar waith ar system y DBS.

Caiff swm y ceisiadau drwy system y DBS ei reoli, er mwyn i Disclosure Scotland a'r DBS addasu'r broses weithredu yn unol â hynny. Byddwn yn cysylltu cyn bo hir â chwsmeriaid sy'n gwneud gwiriadau sylfaenol drwy Disclosure Scotland i ddweud wrthynt am y dewisiadau sydd ar gael iddynt.

### Miliwn o danysgrifwyr i'r Gwasanaeth Diweddaru

**Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi cael dros filiwn o danysgrifwyr i'w Wasanaeth Diweddaru erbyn hyn.**

Cafodd y Gwasanaeth Diweddaru ei lansio ym mis Mehefin 2013, ac mae'n rhoi mwy o reolaeth i'r bobl sy'n anfon ceisiadau dros eu gwybodaeth. Mae'n caniatáu i chi ailddefnyddio tystysgrif DBS wrth wneud cais am rolau tebyg yn yr un gweithlu.

Mae ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru yn lleihau biwrocratiaeth, ac yn arbed arian ac amser. Mae'n caniatáu i'ch cyflogwr fynd ar-lein, gyda'ch caniatâd, a gwirio statws am ddim i weld a yw'r wybodaeth ar eich tystysgrif DBS yn gyfredol. Drwy hyn, mae'n lleihau'r angen i rywun sy'n gwneud cais ofyn am fwy nag un gwiriad wrth symud o un swydd i swydd arall yn yr un gweithlu neu

pan fydd angen cwblhau gwiriad eto. Mae'r mwyafrif helaeth o'r cwsmeriaid syn defnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru wedi dweud wrthym eu bod yn teimlo bod hyn yn gwella diogelwch, sy'n flaenoriaeth o hyd i'r DBS ac i'r llywodraeth.

Dywedodd Adele Downey, Prif Weithredwr, "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi cael miliwn o danysgrifwyr i'n Gwasanaeth Diweddaru."
Mae gennych 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi eich tystysgrif i gofrestru am y Gwasanaeth Diweddaru. Cost cofrestru yw £13 y flwyddyn (yn daladwy drwy gerdyn debyd neu gerdyn credyd yn unig). Ni chodir ffi ar wirfoddolwyr. I gael rhagor o wybodaeth ewch i GOV.UK.

gan **Bev Nicholson,**
Rheolwr Profiad Cwsmeriaid

## Arolwg Boddhad Cwsmeriaid

**Ym mis Mai, cwblhawyd ein trydydd Arolwg annibynnol o Foddhad Cwsmeriaid a chafwyd ymateb gwych eto eleni.**

Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a roesoch i roi eich barn. Fel sefydliad, mae'r DBS wedi ymroi i ddeall eich anghenion ac rydym yn defnyddio hyn i ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni eich disgwyliadau.

Er bod Ipsos MORI yn dal yn dadansoddi eich adborth, rydym wedi cael awgrym cynnar o ddau fesur sy'n bwysig iawn i ni.

**Boddhad cwsmeriaid**
Dywedodd 88% o'r cwsmeriaid eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth a gawsant gan y DBS. Mae hyn yn gyson â lefel y boddhad yn 2016.
Mae'n braf gweld ein bod yn dal yn cynnig lefel uchel o wasanaeth yn gyson a byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd o wneud hyn yn well byth.

Roedd 90% yn cytuno bod y DBS yn gwneud gwahaniaeth i ddiogelwch y cyhoedd drwy helpu cwsmeriaid i wneud penderfyniadau pwysig o ran cyflogaeth. Mae hyn yn gyson â chanlyniadau 2016, ond mae cyfran y rheini sy'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn wedi cynyddu, am yr ail flwyddyn yn olynol o 61% i 63%.

Rydym wedi ymroi i wneud gwahaniaeth drwy ddarparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi'r broses diogelu. Mae'n dda gwybod bod ein cwsmeriaid yn cytuno ein bod yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'r canlyniadau hyn yn galonogol i'r DBS ac maent yn rhoi syniad i ni er mwyn i ni allu cynllunio ar gyfer y dyfodol i wella'r llwybr i gwsmeriaid a'r boddhad cyffredinol.

**Beth sy'n digwydd yn awr?**

Rydym yn aros i Ipsos MORI gwblhau eu dadansoddiad llawn. Byddwn yn adolygu'r canfyddiadau'n fanwl wedyn ac yn cynnwys hyn yn ein camau gwella busnes.

**Cofrestrwch i gael hysbysiadau gan GOV.UK fel eich bod yn gwybod pan fyddwn ni'n cyhoeddi newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf**

gan **Paul Lowton,**
Pennaeth Gweithrediadau (Disclosure)

## ISO 9001

### System rheoli ansawdd gwych

**Mae ISO 9001 yn safon ryngwladol sy'n nodi gofynion ar gyfer system rheoli ansawdd. Mae sefydliadau'n defnyddio'r safon i ddangos eu gallu i ddarparu cynnyrch a gwasanaethau yn gyson sy'n diwallu gofynion rheoliadol a gofynion cwsmeriaid.**

**Beth yw'r prif fanteision?**
• gwella boddhad cwsmeriaid
• gallu cynyddu cymhelliant a chyfranogiad gweithwyr
• hyrwyddo gwelliant parhaus
• gwella effeithlonrwydd gweithredol
• lleihau'r angen i ail-wneud gwaith
• helpu ni i ddiwallu ein gofynion rheoliadol a'n gofynion cyfreithiol
• mae ISO yn farc ansawdd brand sy'n cael ei gydnabod

Mae System Rheoli Ansawdd ein Gweithrediadau (Datgelu) wedi cael tystysgrif ISO 9001 ers 7 mlynedd. Gwnaethom gychwyn gyda thystysgrif ar gyfer cyfateb i Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn unig a llwyddo i ychwanegu'r holl brosesau cyfateb. Ystyrir bod y System Rheoli Ansawdd ar gyfer Gweithrediadau (Datgelu) yn sefydlog ac yn aeddfed erbyn hyn.

Mae gan Gweithrediadau (Gwahardd) System Rheoli Ansawdd ardystiedig ar gyfer yr holl brosesau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar waith achos, a hynny ers bron i 3 blynedd.

Ym mis Mai, cawsom archwiliad ail-ardystio a llwyddo i gadw ein ISO 9001. Cawsom dystysgrif hefyd o dan y safon ISO 9001:2015 newydd.

Wrth gael System Rheoli Ansawdd ardystiedig, mae ein cwsmeriaid yn gallu bod yn sicr ein bod yn gweithio at safon gydnabyddedig sydd wedi cael ei harchwilio'n allanol. Mae hyn yn ein cefnogi hefyd i gynnig gwasanaeth o ansawdd i gwsmeriaid a staff. Mae'r safon yn gwarantu cysondeb o ran:

• hyfforddiant

- prosesau
- mesur a’r broses fesur
- archwilio parhaus

**Beth sy’n digwydd yn awr?**
Y cam nesaf yn Gweithrediadau (Datgelu) yw ein bod ni’n newid i safon 2015 erbyn dechrau mis Medi 2018. Bydd hyn yn gofyn am waith ychwanegol i ddiwallu gofynion newydd ac ychwanegiadau a fydd yn cynnwys:

- mwy o bwyslais ar arweinyddiaeth
- nodi cyd-destun a phartïon sydd â diddordeb
- gwelliant parhaus
- meddwl yn seiliedig ar risg

## Cysylltu

**Cyfeiriad:** Blwch Post 3961 Royal Wootton Bassett SN4 4HF

**Llinell Gymorth DBS:** 03000 200 190

**Cynllun Iaith Gymraeg:** 03000 200 191

**Minicom:** 03000 200 192

**E-bost:** customerservices@dbs.gsi.gov.uk

**Gwefan:** www.gov.uk/dbs

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn clywed am ein newyddion diweddaraf:**
Cofrestrwch ar gyfer hysbysiadau e-bost drwy ymuno â’n rhestr bostio.

Defnyddiwch ein hadnodd tracio ar-lein i ddilyn trywydd eich cais

**Cofiwch ddiweddaru’ch manylion:** Os ydych chi’n gorff cofrestredig, mae angen i chi barhau i ddiweddaru’ch manylion. I gael rhagor o wybodaeth, tarwch olwg ar ein canllaw i gyflogwyr.